Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) – Proffil o'r Rôl

## Tachwedd 2023

## Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yn sefydliad annibynnol hawliau dynol plant. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Gallwch chi ddarllen mwy am bwerau'r Comisiynydd yma a'r rhaglen waith gyfredol yma.

Rocio Cifuentes MBE yw'r Comisiynydd Plant presennol, pedwerydd deilydd y swydd, ac fe gychwynnodd ar ei chyfnod o saith mlynedd yn y rôl yn 2022.

Gallwch ddarllen mwy am y rôl yma.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd (ARAC)

Fel Comisiynydd sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae dyletswydd arni i reoli'n effeithiol yr adnoddau a ddarparwyd ar gyfer ei sefydliad. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod trefniadau yn eu lle i reoli a llywodraethu'r swyddfa yn effeithiol. Prif rôl ARAC yw rhoi cyngor annibynnol i'r Comisiynydd, i'w helpu i gyflawni ei chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Yma fe welwch gopi o Gylch Gorchwyl ARAC, sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

## Aelodaeth Gyfredol

Cadeirydd presennol y Pwyllgor yw Suzy Davies, a fu gynt yn Weinidog cysgodol yn Senedd Cymru. Yn gwmni iddi mae'r aelodau anweithredol canlynol:

- Jocelyn Davies, sydd wedi ymddeol o fod yn aelod o Senedd Cymru (daw'r aelodaeth i ben ym mis Mawrth 2024)
- Arwel Thomas, sydd wedi ymddeol o fod yn Bennaeth Llywodraethu a Sicrwydd yn Llywodraeth Cymru (daw'r aelodaeth i ben ym mis Mawrth 2024)
- Julie Richards, ymgynghorydd cyfathrebu (daw'r aelodaeth i ben yn 2024)
- Jo Hendy, Pennaeth Gwella yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (daw'r aelodaeth i ben yn 2024)
- Bernie Bowen-Thomson, cynghorydd lleol a chyfarwyddwr ar gorff trydydd sector (daw'r aelodaeth i ben yn 2024)
- Kelly Harris, cadeirydd Panel Ymgynghorol Oedolion y Comisiynydd a Phennaeth Cyfranogiad corff trydydd sector (daw'r aelodaeth i ben pan fydd y cyfrifoldebau Cadeirio'n gorffen)
- Alfred Oyekoya, cyfrifydd siartredig (daw'r aelodaeth i ben yn 2025)
- Michaela Leyshon, darlithydd yn y gyfraith (daw'r aelodaeth i ben yn 2025)

Mae archwilwyr allanol o Archwilio Cymru a'n harchwilwyr mewnol, TIAA ar hyn o bryd, hefyd yn bresennol ym mhob cyfarfod.

## Rôl Aelod Anweithredol

Fel Aelod o ARAC byddwch chi'n cyflawni rôl allweddol yn cynghori'r Comisiynydd Plant, er mwyn iddi gyflawni ei dyletswyddau statudol fel Swyddog Cyfrifyddu.

**Ymhlith y cyfrifoldebau allweddol mae:**

1. Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg a'r amgylchedd rheoli o ran diwallu anghenion sicrwydd y Swyddog Cyfrifyddu;
2. Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r mathau hyn o sicrwydd;

3. Adolygu integriti datganiadau ariannol y Comisiynydd;
4. Goruchwylio effeithiolrwydd y fframwaith sydd yn ei le ar gyfer sicrhau cydymffurfio â gofynion statudol, yn arbennig y rhai ynghylch archwilio adroddiadau ariannol;
5. Cynghori'r Comisiynydd a'i thîm o staff ar y trefniadau priodol ar gyfer archwilio mewnol ac allanol a sicrhau ymateb priodol i adroddiadau archwilio a'u canfyddiadau;
6. Cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch i ba raddau mae lefelau o sicrwydd yn ei chefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni ei rhwymedigaethau deddfwriaethol;
7. Cynghori'r Comisiynydd a'i thîm o staff ynghylch risgiau allweddol a materion cydymffurfio a llywodraethu sy'n codi wrth gyflawni gwaith y pwyllgor;
8. Bwrw golwg dros bapurau'r Pwyllgor a mynychu'r cyfarfodydd;
9. Cynnal a diweddaru gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â gwaith y Comisiynydd;
10. Cydymffurfio â'r holl godau ymarfer perthnasol, gan gynnwys Egwyddorion Nolan, a chynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad a moeseg.

Yn gyfnewid, byddwn ni'n ymdrechu i ddarparu profiad bwrdd o safon uchel i chi, mewn awyrgylch cefnogol a chyfeillgar. Bydd ein hysgrifenyddiaeth effeithlon yn rhoi cefnogaeth lawn i chi, a byddwn ni'n ymdrechu i fod yn hyblyg gyda threfniadau'r cyfarfodydd er mwyn ymateb i unrhyw ofynion mynediad neu amgylchiadau personol sydd gennych.

## Cyfrifoldebau ychwanegol

Fel endid Corfforaethol un person, nid yw'r Comisiynydd a'i Thîm wedi'u rhestru fel cyrff sy'n dod o dan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. O ganlyniad, rydyn ni wedi disgrifio rôl ar gyfer Cadeirydd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r aelodau anweithredol eraill yn ein prosesau apêl trydydd cam yn achos llawer o'n polisïau, gan gynnwys ein polisïau cyflogaeth a'n polisïau cwynion allanol.

## Hyd y penodiad

Penodir aelodau am gyfnod o dair blynedd, ac os bydd y ddwy ochr yn cytuno, mae modd adnewyddu hynny am gyfnod pellach o dair blynedd.

## Ymrwymiad Amser a Thaliadau Cydnabyddiaeth

Yn nodweddiadol mae disgwyl i'ch dyletswyddau fel aelod gymryd hyd at 6 diwrnod y flwyddyn; mae hynny'n cynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn, ond gall fod gofyn cynnal cyfarfodydd ychwanegol o bryd i'w gilydd.

Rydyn ni'n cwrdd yn rhithwir ac wyneb yn wyneb. Pan fyddwn ni'n cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac rydych chi'n cytuno i fod yn bresennol, cewch ad-daliad am unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth a ddaeth i'ch rhan yn unol â'n Polisi Teithio a Chynhaliaeth. Bydd ymholiadau a hawliadau ynghylch teithio a chynhaliaeth yn cael eu rheoli gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor, Swyddog Cymorth Gweithredol y Comisiynydd.

Os bydd gofyn i chi gyfranogi mewn proses gŵyn neu apêl trydydd cam, fel y disgrifir uchod yn yr adran dyletswyddau ychwanegol, byddwn yn cytuno ar ymrwymiad amser ac yn talu ffi diwrnod am y gwaith yma. Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod y gwaith yma y tu allan i gwmpas dyletswydd llawer o aelodau sector cyhoeddus traddodiadol, ac er nad yw'n digwydd yn aml, pan fydd yn digwydd, gall fynd â chryn dipyn o amser.

## Gofynion o ran Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau

Rydyn ni'n chwilio'n benodol am unigolion sydd â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ym maes rheolaeth ariannol/cyfrifyddu, p'un a yw hynny yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector

Neu

Brofiad, gwybodaeth a sgiliau ym maes llywodraethu corfforaethol a rheoli risgiau, yn arbennig o ran adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd.

Dylech fedru arddangos gwybodaeth am y tirlun aml-ddiwylliannol ac amlieithog yng Nghymru, gan gynnwys statws swyddogol y Gymraeg, a deall sut gallwch chi gyfrannu'n effeithiol at y pwyllgor yn y cyd-destun hwn.

Byddai hefyd o fantais petai modd i chi arddangos un neu fwy o'r canlynol:

- Profiad o arwain, cynnal neu adolygu gweithgarwch archwilio;
- Profiad cyfreithiol;
- Profiad a/neu wybodaeth am hawliau plant.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ehangu ein dealltwriaeth o Gymru, gan gynyddu cynrychiolaeth pobl ag ystod eang o nodweddion gwarchodedig, ac adeiladu gweithle lle gwerthfawrogir amrywiaeth. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n rhoi blaenoriaeth i geisiadau gan bobl o gefndir Du, Asiaidd neu gefndir ethnig amrywiol arall, a cheisiadau gan bobl anabl.

## Hyfforddiant

Gwahoddir aelodau o'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddiant bob blwyddyn. Bydd rhaglen sefydlu yn cael ei darparu; bydd manylion am hynny'n cael eu rhannu cyn eich cyfarfod cyntaf.

## Gwrthdaro Budd

Mae'n rhaid i bob aelod o ARAC gwblhau datganiad blynyddol o fuddiannau, yn unol â'n Polisi Gwrthdaro Budd. Defnyddir yr wybodaeth a roddir i lunio Cofrestr Buddiannau, sydd ar gael i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar gais.

## Ymddygiad

Bydd gwaith ARAC yn cael ei gyflawni gan roi sylw dyledus i saith egwyddor bywyd cyhoeddus, fel y'u disgrifiwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Gallwch ddarllen copi yma (Saesneg yn unig).

## Terfynu

Os byddwch yn dewis ymddiswyddo o'r penodiad hwn, bydd disgwyl i chi roi tri mis o rybudd, oni bai bod eich amgylchiadau wedi newid mewn modd sy'n golygu ei fod yn briodol i chi ymddiswyddo ar unwaith.

Gall y Comisiynydd derfynu eich penodiad os penderfynir bod eich presenoldeb, eich perfformiad neu eich ymddygiad fel aelod yn annerbyniol, neu os oes gennych wrthdaro budd na ellir ei reoli.

## Hysbysiad preifatrwydd

Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol, yn unol â rheoliadau diogelu data perthnasol, dim ond am y cyfnod pryd y bydd angen i ni wneud hynny. Gwnawn hynny'n unol â'n polisi cadw gwybodaeth a dogfennau.

Mae deddfau diogelu data yn y Deyrnas Unedig yn rhoi hawliau i chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth. O dan rai amgylchiadau mae gennych chi hawl i wrthod caniatâd i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol ar unrhyw adeg. Gallwch ofyn hefyd i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol neu gyfyngu ar sut rydyn ni'n ei defnyddio, neu wrthwynebu hynny.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Comisiynydd ar post@complantcymru.org.uk